

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau

Dyddiad y Cyfarfod: 22 Mawrth 2023

Teitl: Cais Cyngor Tref Ceinewydd i osod Coeden Nadolig ar dir gerllaw Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd

Pwrpas yr Adroddiad: Nodi'r penderfyniad a wnaed

Er: Gwybodaeth

CEFNDIR

Ddydd Iau, 8 Rhagfyr 2022 derbyniodd Cyngor Sir Ceredigion gais gan Gyngor Tref Ceinewydd am ganiatâd i osod Coeden Nadolig ar dir Llyfrgell Ceinewydd, sydd erbyn hyn yn wag, yn Sgwâr Ucheldir, Ceinewydd. Nodwyd mai dyma'r lleoliad ar gyfer Coeden Nadolig Ceinewydd ers sawl blwyddyn bellach a'u bod wedi bwriadu gosod y goeden ar 12 Rhagfyr 2022.

Cafodd y tir dan sylw ei drosglwyddo a'i osod mewn ymddiriedaeth yn 1952 ac, fel y cyfryw, byddai'n rhaid i Bwyllgor Ymddiriedolwyr yr Elusen benderfynu.

Cyflwynwyd y cais i Gyngor Sir Ceredigion ynghyd ag asesiad risg yn nodi eu bod wedi dod i drefniant gyda siop Costcutters gerllaw o ran trydan i oleuo'r goeden.

Nododd Swyddog y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi trwydded, yn ddarostyngedig i benderfyniad y Pwyllgor, yn unol â'r weithdrefn arferol mewn perthynas â'r defnydd o asedau.

Oherwydd y byr-rybudd, ni fu'n bosibl trefnu cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr gan roi rhybudd o'r 3 niwrnod gwaith statudol ar gyfer cyfarfod, heb sôn am yr amser angenrheidiol i baratoi adroddiad a chyfieithiad. Felly, cafodd e-bost ei gylchredeg i bob Aelod o Bwyllgor Ymddiriedolwyr yr Elusen yn gofyn iddynt hysbysu Clerc y Pwyllgor o unrhyw wrthwynebiad a allai fod ganddynt mewn perthynas â'r cais hwn.

Ymatebodd nifer o Aelodau gan gadarnhau nad oedd ganddynt wrthynwebiad, yn ddarostyngedig i weithdrefn briodol fod ar waith, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. Hysbyswyd Cyngor Tref Ceinewydd o'r penderfyniad i ganiatáu iddynt osod y Goeden Nadolig ar safle Llyfrgell Ceinewydd yn Sgwâr Ucheldir dros gyfnod Nadolig 2022/23.

Argymhelliad/Argymhellion: Nodi'r adroddiad a'r penderfyniad a wnaed mewn ymateb i'r cais gan Gyngor Tref Ceinewydd.

Rheswm dros y Adroddiad er gwybodaeth yn unig penderfyniad:

Atodiadau: Dim

Pennaeth y Gwasanaeth: Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio

Swyddog Adrodd: Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Economi ac Adfywio

Dyddiad: 14^{eg} Rhagfyr 2023